# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 27 November 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Asthma yng Nghymru

**C9 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar reoli Asthma yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ20614)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau penodol at y dyfodol ar gyfer asthma yng Nghymru. Fodd bynnag, caiff hynny ei ystyried fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o bolisïau iechyd y Cynulliad.

Yn ddiweddar, cyfarfum â'r Ymgyrch Asthma Cenedlaethol i drafod ei waith ac i ganfod ffyrdd y gall y Cynulliad gynorthwyo'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o asthma ar draws Cymru. Mae swyddogion hefyd yn cydgysgylltu gyda'r Ymgyrch Asthma Cenedlaethol i drefnu derbyniad trawsbleidiol yn adeilad y Cynulliad yn y bae.

Er nad yw llawer o'r gwaith sy'n ymwneud ag ysmygu wedi'i ddatganoli, mae'r Cynulliad hefyd yn gweithio i ddatblygu ymgyrch ysmygu goddefol yng Nghymru, a bydd yr Ymgyrch Asthma Cenedlaethol yn rhan o'r gwaith hwnnw.

### Ysbyty Treffynnon

**C10 Alison Halford:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd trefniadau'r prosiect PFI ar gyfer Ysbyty Treffynnon yn barod? (OAQ20542)

**Jane Hutt:** Caiff y potensial i ddefnyddio'r fenter cyllid preifat i ddatrys y sefyllfa ei ystyried fel rhan o achos busnes y cynllun. Mae'r ymddiriedolaeth yn disgwyl cyflwyniad ffurfiol yn y flwyddyn newydd, yn dilyn ystyriaeth Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru. Mae'r camau cynllunio ac adeiladu ar gyfer cynlluniau menter cyllid preifat a chynlluniau a gyllidir yn ganolog yn debygol o fod yn wahanol, ond bydd yr amser a gymerir, o ddechrau'r cam cynllunio i gomisiynu'r safle newydd, yn gyffredinol yr un peth.

### Recriwtio a Chadw Nyrsys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**C11 Geraint Davies:** Faint o arian ychwanegol fydd y Gweinidog yn ei gyflwyno eleni er mwyn recriwtio a chadw nyrsys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol? (OAQ20609)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ymrwymo i gynyddu nifer y nyrsys yn sylweddol. Erbyn 2010, anelwn at recriwtio 6,000 o nyrsys ychwanegol, sy'n gynnydd o 24 y cant dros wyth mlynedd. Ariennir y camau tuag at gyrraedd y targedau o'r dyraniadau refeniw, i'w gwneud yn flynyddol i fyrddau iechyd lleol a thrwy gyllideb y Cynulliad ar gyfer addysg a hyfforddiant y GIG, a fydd yn

cynyddu £21 miliwn yn 2003-04 i helpu i gynyddu ymhellach y nifer o fyfyrwyr meddygol a phroffesiynau iechyd eraill.

### Misoedd y Gaeaf

**C12 Christine Chapman:** Pa drefniadau sydd ar waith yn y GIG yng Nghymru i ymdopi â phwysau ychwanegol yn ystod misoedd y gaeaf? (OAQ20539)

**Jane Hutt:** O'r £20 miliwn ychwanegol yn y pecyn ariannol a fydd ar gael eleni, mae £7 miliwn wedi'i gynnwys i leddfu pwysau brys, gan gynnal mentrau sy'n rhoi'r budd mwyaf posibl i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae canllawiau cynllunio ar bwysau brys ar gael ar safle rhyngrwyd GIG Cymru, sydd yn cynnwys manylion yr ymgyrch 'Cadwch yn Iach y Gaeaf Hwn' sy'n annog imiwneiddio yn erbyn ffliw i grwpiau sydd mewn perygl. Yn ogystal, mae sefydliadau, am y tro cyntaf, yn defnyddio model i fapio capasiti, sy'n ceisio rhagweld gofynion a chanfod adnoddau, tueddiadau a chyfyngiadau yn y system, gyda'r bwriad o ddechrau rheoli gofal brys yn rhagweithiol. Mae'r gwaith o ddelio ag achosion brys yn cael ei ddatblygu drwy'r rhaglen arloesi mewn gofal, sy'n cyflwyno ac yn lledaenu arfer gorau ar draws Cymru.

### Clefyd Siwgr yng Nghymru

**C13 Dai Lloyd:** A fydd y Gweinidog yn cyhoeddi mesurau newydd i reoli clefyd siwgr yng Nghymru yn y dyfodol agos? (OAQ20615)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd siwgr yng Nghymru. Bydd y fframwaith yn helpu i gynnig gwell safonau gofal a chefnogaeth i rai sydd â chlefyd siwgr, ac yn gweithio tuag at leihau'r anghydraddoldebau iechyd a gysylltir â chlefyd siwgr.

Yr wyf wedi sefydlu grŵp gweithredu clefyd siwgr sy'n cynnwys aelodau o'r holl grwpiau buddiant, gan gynnwys y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr lleyg, i ystyried y goblygiadau i wasanaethau yng Nghymru ac i gynghori ar y strategaeth ddarparu. Er mwyn helpu i lunio'r strategaeth, mae'r Cynulliad wedi gofyn i'r Comisiwn Archwilio i gynnal adolygiad o wasanaethau sylfaenol, ac mae Ymchwil Marchnad Cymru wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd grŵp ffocws yn cwmpasu pob haen o'r gwasanaeth.

Yn ogystal, yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, mae rhaglen sgrinio retinopathi clefyd siwgr i Gymru gyfan yn cael ei sefydlu, ynghyd â chanolfan cydlynu cenedlaethol.

### Sefyllfa Ariannol GIG Cymru

**C14 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefyllfa ariannol GIG Cymru ar hyn o bryd? (OAQ20608)

**Jane Hutt:** Darparwyd manylion sefyllfa ariannol bresennol GIG yn fy adroddiad misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Tachwedd. Dengys rhagolygon presennol ddiffyg gweithredol ar gyfer 2002-03 o rhwng £42.5 miliwn a £59 miliwn, o'i gymharu â £39.7 miliwn o ddarpariaeth a gyllidebwyd.

### Mesur Iechyd Meddwl

**C15 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau i roi'r Mesur iechyd meddwl ar waith? (OAQ20641)

**Jane Hutt:** Arweiniodd yr ymgynghoriad helaeth at oddeutu 2,000 o ymatebion gan randdeiliaid, ac yr oedd y rhain yn fanwl a chymhleth. Mae fy swyddogion yn parhau mewn cysylltiad agos gyda'r Adran

Iechyd wrth iddi ystyried yr ymatebion. Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Mesur pan fydd amser seneddol ar gael. Darperir gwybodaeth bellach wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ar hyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Y Cwricwlwm ar gyfer Pobl Ifanc 14-19 Oed

**C6 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y broses ymgynghori sydd i'w chynnal ar y cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed? (OAQ20569)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cyhoeddwyd y papur ymgynghori, 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19', ar 29 Hydref 2002 ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Tachwedd 2002. Mae'r papur yn nodi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnwys y cyfnod dysgu ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yn y dyfodol yng Nghymru.

Bu ymgynghori parhaus yn y Cynulliad a thu allan iddo ers dechrau'r prosiect yn Mai 2002. Yr ydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod cyfle i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, lunio'r cynigion. Bydd hyn yn parhau, gyda chyfres o gynadleddau, cyfarfodydd a digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol yn cynnwys pob sector, hyd at 7 Chwefror 2003, pan ddaw'r cyfnod ymgynghori ffurfiol i ben.

### 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol'

**C7 Rhodri Glyn Thomas:** A oes swm o arian yn y gyllideb addysg er mwyn ariannu ymateb y Cabinet i argymhellion yr adroddiad 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol'? (OAQ20647) [W]

**Jane Davidson:** Bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn heddiw. Bydd yn disgrifio sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'i chynllun gweithredu ar gyfer yr iaith Gymraeg ar draws portffolios nifer o Weinidogion, yn unol â'r hyn a nodwyd yn 'Dyfodol Dwyieithog: Bilingual Future'.

### Y Fformiwla Ariannu Ysgolion

**C8 Cynog Dafis:** A oes amserlen wedi'i phennu ar gyfer y broses ymgynghori ar adolygu rheoliadau'r fformiwla ariannu ysgolion, sydd i'w chynnal y flwyddyn nesaf? (OAQ20623)

**Jane Davidson:** Mae trafodaethau rhagymgynghori gyda phartneriaid allweddol, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Llywodraethwyr Cymru a'r undebau athrawon, eisoes yn mynd rhagddynt. Bydd ymgynghori ffurfiol gydag awdurdodau addysg lleol, ysgolion a charfannau eraill sydd â diddordeb yn dechrau yn fuan yn 2003, gyda'r bwriad o roi rheoliadau newydd ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05.

### Grant Dysgu'r Cynulliad

**C9 Eleanor Burnham:** Sawl grant dysgu'r Cynulliad a roddwyd hyd yn hyn? (OAQ20635)

**Jane Davidson:** Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd yn y pythefnos diwethaf gan awdurdodau addysg lleol yn dangos y dyfarnwyd grantiau dysgu'r Cynulliad i 13,640 o fyfyrwyr a dderbyniodd £1,083 ar gyfartaledd erbyn diwedd Hydref.

### Band Eang mewn Ysgolion

**C10 Mick Bates:** Faint o ysgolion Cymru all ddefnyddio'r band eang? (OAQ20550)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad yn mesur cysylltedd band eang ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol yn erbyn y lefelau a awgrymwyd gan Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg

Addysgol Prydain, sef 8Mb ar gyfer ysgolion uwchradd a 2Mb ar gyfer ysgolion cynradd. O gyfanswm o 1,819 o ysgolion yng Nghymru, cyrhaeddodd 107 o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd y feincnod yn Mawrth 2002, a disgwylir i'r cyfanswm hwn godi i 867 erbyn Mawrth 2003.

### Defnyddio Mentrau Cyllid Preifat i Adeiladu Ysgolion Newydd

**C11 Cynog Dafis:** Beth yw manteision y mentrau cyllid preifat i awdurdodau addysg lleol fel ffynhonnell ariannol ar gyfer adeiladu ysgolion newydd? (OAQ20648)

**Jane Davidson:** Mater i'r awdurdod contractio yw cynnal arfarniad economaidd trylwyr i gymharu ceisiadau PFI gyda dulliau caffael confensiynol. Drwy ganiatáu i'r sector preifat benderfynu sut y dylid darparu'r gwasanaeth, gall awdurdodau dyfarnu drosglwyddo risgiau penodol y byddent yn draddodiadol wedi gorfod delio â hwy, megis gorwario o ran costau adeiladu a sicrhau bod arian ar gael.

### Triwantiaeth ac Absenoldebau o'r Ysgol

**C12 Jocelyn Davies:** A yw'r Gweinidog yn ffyddiog y bydd yn cyrraedd ei thargedau o ran triwantiaeth ac absenoldebau o'r ysgol? (OAQ20624)

**Jane Davidson:** Bu i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlais i ystyried materion yn ymwneud â phresenoldeb gydnabod bod cwrdd â'r targed presenoldeb ar gyfer 2004 yn sialens fawr. Argymhellodd y grŵp hefyd y dylem arolygu y modd y cofnodwn absenoldebau, gan nad yw'r gwahaniaeth rhwng absenoldebau wedi eu hawdurdodi a rhai heb eu hawdurdodi yn cael ei gofnodi'n gyson, yn ymarferol, ledled Cymru. Mae Deddf Addysg 2002 yn ein galluogi i osod targedau ar y cyfraddau ar gyfer pob absenoldeb. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i ystyried y materion hyn ynghyd â'n dull gweithredu o ran targedau cyfredol.

### Ysgolion Uwchradd yn Sir y Fflint

**C13 David Ian Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint? (OAQ20558)

**Jane Davidson:** Darperir cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion yn setliad refeniw llywodraeth leol. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yng Ngorffennaf, cynyddodd awdurdodau lleol eu cyllidebau addysg tua 6.8 y cant, neu £101 miliwn, ar gyfer 2002-03. Cynyddodd Cyngor Sir y Fflint ei gyllideb addysg 8.6 y cant. Caiff manylion dros dro y setliad refeniw ar gyfer 2003-04 eu cyhoeddi ar 28 Tachwedd.

Yr ydym wedi rhoi £36 miliwn i awdurdodau addysg lleol fel grant gwella adeiladau ysgolion ar gyfer 2002-03. Mae dyraniad Cyngor Sir y Fflint o gwmpas £1.8 miliwn. Mae hynny'n ychwanegol at gyllid cyfalaf cyffredinol heb ei bridiannu a roddir i'r awdurdod gan y Cynulliad.

### Dysgu Ymhlith Pobl Ifanc

**C14 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chynigion i wella a hybu dysgu ymhlith pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed? (OAQ20649)

**Jane Davidson:** Cyhoeddwyd y papur ymgynghori, 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19', ar 29 Hydref 2002 ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Tachwedd 2002. Mae'r papur yn nodi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnwys y cyfnod dysgu ar gyfer bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yn y dyfodol yng Nghymru.

## Dysgwyr Dros 16 Oed

**C15 Tom Middlehurst:** Pa gynnydd y mae ELWa wedi'i wneud o ran codi nifer y dysgwyr dros 16 oed? (OAQ20568)

**Jane Davidson:** Gan fod y cwestiwn yn y bôn yr un fath a hwnnw a ofynnodd Christine Chapman yn OAQ19698, fe'ch cyfeiriaf at fy ateb yng Nghofnodion y Trafodion ar gyfer 30 Hydref 2002.